Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
Community Fund

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR

Adroddiad y drydedd flwyddyn | Third Year Report

Medi | September 2017 – Awst | August 2018

Wedi ei lleoli yn y gymuned, ar gyfer y gymuned ac yn cael ei rhedeg gan y gymuned

Located in the community, for the community and run by the community

www.gwyntymorfund.cymru

innogy

SWM Stadtwerke München

MACQUARIE

Green Investment Group

SIEMENS Gamesa RENEWABLE ENERGY

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr

Bob blwyddyn, mae Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr (GYM) yn cyflwyno cronfa gymunedol a fydd yn werth mwy na £19 miliwn yn ystod oes y prosiect. Mae'r gronfa'n cael ei gweinyddu'n annibynnol ar GYM gan Gymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC) gyda chefnogaeth gan Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae'r holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel annibynnol o wirfoddolwyr o bob cwr o'r ardal a fydd yn elwa.

Mae'r gronfa'n hyblyg iawn ac yn hwylus. Gall sefydliadau wneud ceisiadau drwy'r flwyddyn am grantiau cyfalaf neu refeniw bach gwerth hyd at £10,000. Ar hyn o bryd, mae grantiau mawr o £10,000 hyd at uchafswm o £50,000 dros 3 blynedd yn cael eu hystyried unwaith y flwyddyn, a'r dyddiad cau yw'r 1af o Fawrth.

Fel rhan o'r Gronfa Gymunedol, dyfarnwyd rhodd 5 mlynedd i'r RNLI yng Ngogledd Cymru. Yn 2018, pedwaredd flwyddyn y trefniant, talodd £110,000 am hyfforddiant i'r holl griwiau gwirfoddol ar hyd Arfordir Gogledd Cymru yng ngorsafoedd bad achub Llandudno, Conwy, Rhyl a'r Fflint. Yn 2018, roedd ein rhodd wedi helpu'r RNLI i wneud y canlynol:

- **Achub 221 o bobl**
- **Achub 3 bywyd**
- **Cyfrannu at 1,516 o oriau'r Criw ar y môr yn gwneud ymarferion hyfforddiant**

RNLI Lifeboats

Gwynt y Môr Offshore Wind Farm Community Fund

Each year Gwynt y Môr Offshore Wind Farm (GYM) delivers a community fund which will be worth more than £19 million over the project's lifetime. The fund is administered independently of GYM by Community & Voluntary Support Conwy (CVSC) with support from Denbighshire & Flintshire Voluntary Services Councils. All decisions are made by an independent panel of volunteers from across the area of benefit.

The fund is really flexible and easy to access. Organisations can apply throughout the year for small capital or revenue grants up to £10,000. Large grants from £10,000 to a maximum of £50,000 over 3 years are currently considered once a year with a closing date of 1st March.

As part of the Community Fund a 5 year donation was awarded to the RNLI in North Wales. In 2018, the fourth year of the arrangement, £110,000 funded training for all volunteer crews along the North Wales Coast at the Llandudno, Conwy, Rhyl and Flint lifeboat stations. In 2018 our donation helped RNLI to:

- **Rescue 221 people**
- **Save 3 lives**
- **Contribute to 1,516 Crew hours at sea on training exercises**

£635,885
wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau
committed to projects

33.5
o swyddi wedi'u creu
jobs created

48
o brosiectau gwahanol wedi'u cefnogi
different projects supported

£1,973,120
o arian cyfatebol wedi'i sicrhau
match funding secured

42
o grantiau bach dan £10,000
small grants under £10,000

6
6 grant mawr dros £10,000
large grants over £10,000

898
o gyfleoedd i wirfoddoli wedi'u creu a diogelu
volunteer opportunities created and safeguarded

97.5
o swyddi wedi'u diogelu
jobs safeguarded

Betty, yng Nghanolfan Gymunedol Trinity
Betty at The Trinity Community Centre

Canolfan Gymunedol Trinity

£9,999 wedi'i ddyfarnu yn 2018

"Betty ydw i, ac rwy'n un ymhlith mwy na 130 o aelodau yng Nghanolfan Trinity yn Llandudno – ac mae bob un ohonom dros 50 oed. Mae gan rai pobl ddementia neu maen nhw wedi cael strôc, neu does ganddyn nhw ddim teulu neu help yn y cartref. Rydym yn chwarae gemau, yn sgwrsio ac yn cael lot fawr o hwyl. Ac rydym yn derbyn gofal ac yn cael prydau bwyd blasus, sy'n braf iawn!

Yn sgil toriadau ariannol roedd perygl i ni golli'r Ganolfan, felly ni allai'r arian gan Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr fod wedi cyrraedd ar adeg well. Diolch i'r arian, bu'n bosib iddynt barhau i dalu'r staff, sy'n werth y byd. Maen nhw hyd yn oed wedi cyflogi ysgrifenyddes a chogydd newydd – braf ydy gweld y ganolfan yn ffynnu.

Rydym wedi sefydlu cymuned glòs iawn, fyddwn i ddim wedi gallu ymdopi heb y ganolfan pan gollais fy ngŵr, rwyf wedi gwneud gymaint o ffrindiau yma, mae wedi bod yn help llaw cwbl hanfodol."

Trinity Community Centre

£9,999 awarded in 2018

"I'm Betty and I'm one of over 130 members at the Trinity Centre in Llandudno and we're all over 50. Some people have dementia or have suffered strokes or have no family or help at home. We play games, have a natter and share a lot of laughs. All whilst being looked after and provided with delicious meals, which is a real treat!

Funding cuts had meant we risked losing the Centre, so the funding from Gwynt y Môr Community Fund couldn't have come at a better time. Thanks to the funding they've been able to continue to pay the staff, who are worth their weight in gold. They've even been able to hire a secretary and a new cook, it makes me so happy to see the centre thriving.

We've formed a really tight knit community, I couldn't have done without the centre when my husband passed away, I've made so many friends here, it's been a real lifeline."

Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn

£16,499 wedi'i ddyfarnu ym mis Hydref 2017 dros 2 flynedd

"Yn Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn (CBW) rydym yn cynnig cyfleoedd i bobl o bob cefndir yn y gymuned gael hwylio, hwylfyrddio ac ymgymryd â chwaraeon dŵr eraill. Gyda nifer yn ei chael hi'n anodd yn yr ardal, rydym yn ceisio bod yn ffynhonnell o hwyl sy'n tynnu sylw at iechyd a lles, gan ddod â'r gymuned at ei gilydd.

Kai ydw i, ac fe ddechreuais fel un o'r gwirfoddolwyr sy'n helpu i wneud i hyn i gyd ddigwydd. Y nod yw sicrhau bod gwirfoddolwyr yn datblygu sgiliau personol a phroffesiynol angenrheidiol a all roi hwb iddynt pan fyddan nhw'n chwilio am swydd, yma neu yn rhywle arall yn y diwydiant awyr agored.

Diolch i haelioni caredig yr arian o Gwynt y Môr, bu'n bosib i ni gyflogi Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae wedi gwneud gymaint o wahaniaeth i'r gwaith rydym yn ei wneud, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nifer o bobl a grwpiau newydd na fyddem wedi gallu eu cyrraedd o'r blaen.

Mae fy nghyfnod yn CBW wedi fy helpu i ddysgu sgiliau newydd, cael profiad a chymwysterau diwydiant sydd wedi fy ngalluogi i gael swydd â thâl gyda nhw fel Rheolwr Gweinyddol a Digwyddiadau. Mae fy hyder wedi cynyddu'n fawr, ac yn ogystal â gweithio i CBW rwyf nawr yn helpu grwpiau cymunedol eraill, gan greu CV cynhwysfawr ar yr un pryd."

Colwyn Bay Watersports

£16,499 awarded in October 2017 over 2 years

"At Colwyn Bay Watersports (CBW) we make sailing, windsurfing and other watersports available to all walks of life within the community. With many struggling in the area, we see our role as being a source of fun that highlights health & wellbeing whilst bringing the community together.

I'm Kai and I started as one of the volunteers who help to make all this happen. The aim is that in the process volunteers develop vital personal and professional skills that can provide a leg up when it comes to finding employment, be it here or elsewhere in the outdoor industry.

Thanks to the kind generosity of the funding from Gwynt y Môr we've been able to hire a Community Engagement Officer. It's made such a difference to the work we do and we're looking forward to working with many new people and groups who we wouldn't previously have been able to reach.

My time at CBW has really helped me to learn new skills, gain experience and industry qualifications which has enabled me to gain paid employment with them in the role of Admin & Events Manager. My confidence has really grown and in addition to working for CBW I'm now helping other community groups, building a comprehensive CV in the process."

Kai, Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn
Kai, Colwyn Bay Watersports

Cora a'i thad Gareth
Cora and dad Gareth

Superkids Gogledd Cymru

£25,000 wedi'i ddyfarnu ym mis Chwefror 2017 a bellach wedi cwblhau ei flwyddyn lawn gyntaf a pharhau i 2019.

Elusen fach yn Sir y Fflint yw Superkids Gogledd Cymru sy'n cefnogi teuluoedd agored i niwed yn ein cymuned. Maen nhw yno i deuluoedd pan fydd arnynt eu hangen fwyaf, boed yn afiechyd terfynol, camddefnyddio sylweddau, trais domestig neu galedi ariannol i enwi dim ond rhai. Mae grant gan Gronfa Gwynt y Môr wedi helpu Superkids i sicrhau digon o arian cyfatebol ychwanegol i brynu carafán newydd y mae modd i ddefnyddwyr anabl ei defnyddio ar gyfer eu prosiect gwyliau. Mae'r prosiect hwnnw wedi bod yn achubiaeth i mi a'm teulu. Karen ydw i, ac enw fy mhartner yw Gareth, ac mae gennym ni ferch 3 oed o'r enw Cora sy'n dioddef o barlys yr ymennydd - dim ond dechrau symud o gwmpas ar ei phen ei hun mae hi gyda help ei ffrâm gerdded. Y gwyliau yn y garafán oedd un o uchafbwyntiau y flwyddyn.

Am weddill yr amser mae bywyd yn ymwneud ag apwyntiadau niferus Cora yn yr ysbyty. Yn aml, gall hyn olygu aros oddi cartref pan fyddwn yn teithio i lawr i ysbyty yn y De am lawdriniaeth arbenigol. Gall hyn olygu bod ei brawd, sy'n 6 oed, yn colli allan ar amser efo'r teulu, felly roedd y gwyliau'n hwb enfawr i bawb ac yn gyfle gwych i deimlo'n normal. Roedd gymaint i'w weld a'i wneud ar y safle, roedd rhywbeth newydd a chyffrous bob dydd.

Er bod yn rhaid i ni ailddechrau mynd i apwyntiadau yn yr ysbyty ar ôl dychwelyd adref, roedd y seibiant byr yn eithriadol o therapiwtig ar gyfer y teulu cyfan. Yr hyn oedd yn braf gweld oedd bod gan frawd Cora gymaint i'w ddweud wrth ei athro ar ôl dychwelyd i'r ysgol - fel arfer mae'n llawer iawn fwy tawel, ac yn aml yn teimlo'n fel petai'n cael ei lethu."

North Wales Superkids

£25,000 awarded in February 2017 having now completed its first full year of operation and ongoing into 2019.

North Wales Superkids is a small charity based in Flintshire that supports vulnerable families. They're there for families when they need them most, be it terminal illness, substance misuse, domestic violence or financial hardship to name but a few. A grant from the Gwynt y Môr Fund helped Superkids to secure enough additional match funding to buy a fabulous replacement, disability accessible caravan for their holiday project.

"That project has been a lifeline for me and my family. I'm Karen and my 3-year-old Cora suffers from cerebral palsy and is only just beginning to move around on her own with the help of her walking frame. The holiday in the caravan was a real high point of the year.

The rest of the time life revolves around Cora's numerous hospital appointments. This can often mean away from home stays when we travel down South to a hospital for specialised surgery. This can mean that her 6-year-old brother, misses out on family time, so the holiday was a massive boost for everyone and a fantastic opportunity to feel normal. There was so much to see and do on site, there was something new and exciting every day.

Although once we got home the hospital appointments were back on the calendar, the short time away was amazingly therapeutic for the whole family. What was exciting was once Cora's brother got back to school he had so much to tell his teacher, where ordinarily he tends to be much quieter, often feeling overwhelmed."

Y Gyllideb

CGGC sydd wedi'i gontractio i weinyddu cronfa GYM. Mae'r holl arian wedi'i neilltuo i'w ddefnyddio i fynd i'r afael â'r themâu o fewn yr ardal a fydd yn elwa. Cynhwysir ffi weinyddol sy'n talu costau gweinyddol y gronfa, a oedd yn cynnwys cyflogi Rheolwr Rhaglen llawn amser yn ogystal â'r cymorth gweinyddu a chyllid angenrheidiol.

Budget

CVSC is contracted to administer the GYM fund. All funds are ring fenced for use to address the themes within the area of benefit. An administration fee is included which covers the administration costs of the fund, which included the employment of a full time Program Manager as well as the administration and finance support required.

Y Gronfa The Fund

Cronfa Gymunedol a gafwyd gan Fferm Wynt y Môr GYM Cyf: Community Fund received from GYM Offshore Windfarm Ltd:	£707,008.16
Ffioedd gweinyddol gan Fferm Wynt y Môr GYM Cyf: Administration fees from GYM Offshore Windfarm Ltd:	£58,000.00

Dyraniadau grant yn 2018 Grant awards in 2018

Grŵp Sgowtiaid y Gogarth Orme Scout Group	£3,228
Age Connects Gogledd Ddwyrain North East	£9,999
Action On Hearing Loss	£9,900
Men's Sheds 2 Y Rhyl Rhyl	£9,282
Pêl-fasged Cadair Olwyn Wheelchair Basket Ball	£9,600
Homestart Dinbych Denbigh	£9,988
Homestart Conwy	£9,489
Autism Initiatives	£9,090
Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn Colwyn Bay Watersports	£9,999
Jigsaw	£8,750
Wicked Wales	£5,700
Clwyd Alyn - Hafan Dirion	£4,209
Cylch Meithrin Mornant	£9,999
Cymdeithas Gymunedol Marsh Marsh Commuity Association	£218
Clwb Cerddoriaeth Y Rhyl Rhyl Music Club	£4,250
Castell Gwrych Castle	£9,999
Tŷ Ni	£9,843
Canolfan Gymunedol Rhyd y Foel Rhyd y Foel Community Centre	£4,400
Ymddiriedolaeth Jamie Roddick Trust	£9,838
Amgueddfa Llandudno Museum	£125,000
Tai Gogledd Cymru N. Wales Housing	£9,750
Gŵyl Fwyd Rhuddlan Food Festival	£1,400
Canolfan Trinity Centre	£9,999

Y Gymdeithas Strôc Stroke Association	£7,118
Hafan o Oleuni Haven of Light	£6,137
Vision Support - Prestatyn	£45,479
NWAMI	£5,700
CAIS Cyf. Ltd	£49,021
TAPE	£43,309
CAIS Cyf. 2 Ltd 2	£9,999
Tŷ Gobiath	£49,950
Hope Restored 3	£17,000
Unllais	£9,999
Clwb Cyfeillion Trelawnyd Friendship Club	£2,200
Babanod Cyfeillion Gele Friends of Gele Infants	£9,999
Grŵp Gweithredu Chester Avenue Action Group	£250
Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl West Rhyl Young People's Project	£9,999
SPYCE	£9,943
Credyd Cynhwysol CAB Universal Credit	£9,750
Book of You 2	£9,999
CRUSE Gogledd Cymru North Wales	£9,999
North Denbighshire Domestic Abuse Service Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych	£9,728
BID Crest & Bae Colwyn Crest & Colwyn Bay BID	£9,999
Côr Cymunedol Aquire Community Choir	£1,000
Gerddi Botanegol Y Rhyl Botanical Gardens	£1,985
CAB Sir Ddinbych Denbighshire	£9,767
Clwb Bowlio Bryn Newydd Bowling Club	£2,500
Llanddulas & Rhyd y Foel Remembers	£1,125

Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr

Agorwyd Fferm Wynt ar y Môr GYM, oddi ar arfordir Gogledd Cymru, yn swyddogol ym mis Mehefin 2015 – dyma'r ail fferm wynt fwyaf yn y byd. Mae modd i'r fferm wynt arloesol hon gynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy i bweru anghenion blynyddol tua 400,000 o aelwydydd cyfartalog yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.

Mae GYM yn cynrychioli buddsoddiad sy'n werth mwy na £2biliwn sydd wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng innogy SE (50%); Stadwerke München GmbH, cwmni cyfleustodau bwrdeistrefol Munich (30%); Cronfa Ffermydd Gwynt ar y Môr y Green Investment Group (10%) a Siemens Gamesa Renewable Energy (10%).

Gwynt y Môr Offshore Wind Farm

GYM Offshore Wind Farm, located off the coast of North Wales, was officially opened in June 2015 as the world's second largest wind farm. This innovative wind farm has the potential to generate enough renewable energy to power the equivalent annual needs of approximately 400,000 average UK households.

GYM represents a total investment of more than £2billion currently shared between innogy SE (50%); Stadwerke München GmbH, Munich's municipal utilities company (30%); the Green Investment Group Offshore Wind Fund (10%) and Siemens Gamesa Renewable Energy (10%).

Rhaglen Brentisiaeth Tyrbinau Gwynt

Cafodd Rhaglen Brentisiaeth Tyrbinau Gwynt innogy ei chreu gyda Grŵp Llandrillo Menai yn 2012. Y coleg sy'n gyfrifol am sefydlu'r Ganolfan Hyfforddi Tyrbinau Gwynt ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, yw Grŵp Llandrillo Menai yng Ngogledd Cymru; eu bwriad yw cynhyrchu technegwyr medrus sy'n gallu cwrdd ag anghenion y dyfodol i Innogy a'r diwydiant ynni adnewyddadwy ehangach.

Nawr yn ei chweched flwyddyn (lansiwyd ym mis Rhagfyr 2012) mae'r cwrs wedi hyfforddi bron i 30 o brentisiaid newydd, a chafodd 3 Prentis newydd eu recriwtio ym mis Medi 2018.

Mae'r rhaglen yn addysgu sgiliau sy'n hynod drosglwyddadwy, gyda phrentisiaid yn gweithio ar draws meysydd gwynt ar y tir, gwynt ar y môr a hydro ar gyfer cwmnïau amrywiol ac ar draws cymysgedd o fathau o dyrbinau a thechnoleg dros gyfnod o dair blynedd.

Wind Turbine Apprenticeship Programme

innogy's Wind Turbine Apprenticeship Programme was created with Grŵp Llandrillo Menai in 2012. The college responsible for establishing the Wind Turbine Training Centre at Grŵp Llandrillo Menai's Rhos-on-Sea campus in North Wales, mission is to generate skilled technicians that can meet the future needs of innogy and the wider renewables industry.

Now in its sixth year (launched in December 2012) the course has trained nearly 30 new apprentices with 3 new Apprentices recruited in September 2018.

The programme teaches skills that are highly transferable, with apprentices working across onshore wind, offshore wind and hydro for various companies and across a mix of turbine and technology types over a three year period.

Llais Panel Grantiau Gwynt y Môr

The voice of the Gwynt y Môr Grants Panel

"Rydw i'n falch o fod yn rhan o gorff sy'n cefnogi cymunedau lleol. Rwy'n cael boddhad o wybod fy mod yn helpu grwpiau lleol i ddatblygu mentrau newydd."

"I am proud to be part of a body supporting local communities. I get satisfaction knowing that I am helping local groups to develop new initiatives."

aelod o banel GYM panel member

"Cefnogi cymunedau i adeiladu'r gymuned"

"Supporting communities building community"

aelod o banel GYM panel member

"Mae'n wych cael bod yn rhan o banel sy'n meddwl yn gadarnhaol, gydag aelodau sy'n cynrychioli'r holl sectorau yn dod ynghyd, a hynny dim ond i gefnogi cymunedau a sefydliadau, sy'n dymuno gweld cymunedau'n llwyddo."

"It's great to be part of such a positive thinking panel with members representing all sectors coming together, with the sole purpose of supporting communities and organisations, who want to see communities succeed."

aelod o banel GYM panel member

@GwyntYMorCF

@gwyntymor

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR

FUNDED BY GWYNT Y MÔR